



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 Rhif 2492 (Cy. 159)

2000 No. 2492 (W. 159)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Lwfansau Aelodau) (Diwygio)
(Cymru) 2000**

**The Local Authorities (Members'
Allowances) (Amendment) (Wales)
Regulations 2000**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note does not form part of the Regulations)

Mae adran 173 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gwneud darpariaeth i aelod o gyngor plwyf yn Lloegr neu o gyngor cymuned yng Nghymru sy'n gynghorydd gael taliad yn lwfans presenoldeb nad yw'n fwy na'r swm a ragnodir drwy gyfrwng rheoliadau ac i aelod o gyngor o'r fath nad oes ganddo hawl i gael taliad o'r fath gael taliad yn lwfans colled ariannol nad yw'n fwy na'r swm a ragnodir drwy gyfrwng rheoliadau.

Section 173 of the Local Government Act 1972 makes provision for a member of, in England, a parish or, in Wales, a community council who is a councillor to receive a payment by way of attendance allowance which does not exceed the amount prescribed by regulations and for a member of such a council who is not entitled to receive such a payment to receive a payment by way of financial loss allowance which does not exceed the amount prescribed by regulations.

Mae adran 175 o Ddeddf 1972 yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu i aelod o awdurdod lleol neu o unrhyw gorff arall y mae'r adran honno'n gymwys iddo lwfans am fynd i gynhadledd neu gyfarfod nad yw'n fwy nag unrhyw swm a bennir mewn rheoliadau neu y penderfynir arnynt o danynt.

Section 175 of the 1972 Act makes provision for the payment to a member of a local authority or of any other body to which that section applies of an allowance for attending a conference or meeting which does not exceed such amount as may be specified in or determined under regulations.

Mae Rheoliad 17 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) 1991 yn pennu swm at ddibenion adran 175 o Ddeddf 1972 ac mae Rheoliad 18 o'r Rheoliadau hynny'n pennu symiau at ddibenion adran 173 o'r Ddeddf honno.

Regulation 17 of the Local Authorities (Members' Allowances) Regulations 1991 specifies an amount for the purpose of section 175 of the 1972 Act and Regulation 18 of those Regulations prescribes amounts for the purposes of section 173 of that Act.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 17 a 18 o Reoliadau 1991 drwy gynyddu'r symiau perthnasol, ac yn diddymu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) 1999 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Rhif 2) 1999 mewn perthynas â Chymru.

These Regulations amend Regulations 17 and 18 of the 1991 Regulations by increasing the relevant amounts and revoke the Local Authorities (Members' Allowances) (Amendment) Regulations 1999 and the Local Authorities (Members' Allowances) (Amendment) (No.2) Regulations 1999 in relation to Wales.

2000 Rhif 2492 (Cy. 159)**2000 No. 2492 (W. 159)****LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU****LOCAL GOVERNMENT,
WALES****Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Lwfansau Aelodau) (Diwygio)
(Cymru) 2000****The Local Authorities (Members'
Allowances) (Amendment) (Wales)
Regulations 2000**

Wedi'u gwneud 12 Medi 2000
Yn dod i rym 13 Medi 2000

Made 12th September 2000
Coming into force 13th September 2000

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 173(1), (2) a (4) a 175(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(a) a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(b).

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to the Secretary of State by sections 173(1), (2) and (4) and 175(1A) of the Local Government Act 1972(a) which are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales(b).

Enwi, cychwyn a dehongli

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 13 Medi 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Local Authorities (Members' Allowances) (Amendment) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 13th September 2000.

(2) These Regulations apply to Wales only.

Diwygiadau

2.-(1) Diwygir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) 1991(c) yn unol â'r paragraffau canlynol.

- (2) Yn Rheoliad 17, ym mharagraff (2), yn lle "£29.48" rhowch "£30.39".
- (3) Yn Rheoliad 18,
- (a) ym mharagraff (1), yn lle "£29.48" rhowch "£30.39";

Amendments

2.-(1) The Local Authorities (Members' Allowances) Regulations 1991(c) are amended in accordance with the following paragraphs.

- (2) In Regulation 17, in paragraph (2), for "£29.48" substitute "£30.39".
- (3) In Regulation 18,
- (a) in paragraph (1), for "£29.48" substitute "£30.39";

(a) 1972 p. 70. Diwygiwyd adran 173 gan Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (p. 65), adran 24(1) a chan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), Atodlen 11, paragraff 26. Mewnosodwyd adran 175(1A) gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Atodlen 11, paragraff 27. I gael y diffiniad o "prescribed" gweler adran 270 o Ddeddf 1972.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1991/351; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1999/1086 ac O.S. 1999/1087.

(a) 1972 c. 70. Section 173 was amended by the Local Government, Planning and Land Act 1980 (c. 65), section 24(1) and by the Local Government and Housing Act 1989 (c.42), Schedule 11, paragraph 26. Section 175(1A) was inserted by the Local Government and Housing Act 1989, Schedule 11, paragraph 27. For the definition of "prescribed" see section 270 of the 1972 Act.

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1991/351; relevant amending instruments are S.I. 1999/1086 and S.I. 1999/1087.

- (b) ym mharagraff (2),
- (i) yn is-baragraff (a) yn lle “£26.24” rhowch “£27.65”; a
- (ii) yn is-baragraffau (b) ac (c), yn lle “£52.49” rhowch “£55.31”.

Diddymu

3. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) 1999**(a)** a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Rhif 2) 1999**(b)** wedi’u diddymu mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(c)**.

12 Medi 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

- (b) in paragraph (2),
- (i) in sub-paragraph (a), for “£26.24” substitute “£27.65”; and
- (ii) in sub-paragraphs (b) and (c), for “£52.49” substitute “£55.31”.

Revocation

3. The Local Authorities (Members’ Allowances) (Amendment) Regulations 1999**(a)** and the Local Authorities (Members’ Allowances) (Amendment) (No. 2) Regulations 1999**(b)** are revoked in relation to Wales.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(c)**.

12th September 2000

Dafydd Elis Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 1999/1086.

(b) O.S. 1999/1087.

(c) 1998 p. 38.

(a) S.I. 1999/1086.

(b) S.I. 1999/1087.

(c) 1998 c. 38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 2492 (Cy. 159)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Lwfansau Aelodau) (Diwygio)
(Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 2492 (W. 159)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Local Authorities (Members'
Allowances) (Amendment) (Wales)
Regulations 2000

©© Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£1.75

W/48/10/00

ON

ISBN 0-11-090125-8



9 780110 901251